

CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 59
17/05/21

Daeth yr Ysbryd Glân

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



Paratowyd y pecyn hwn gan:

Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes
Kathryn Williams a Gwyn Rhydderch

An English
version
is also
available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org

Stori



Fersiwn Beibl.net

Ar ddiwrnod dathlu Gŵyl y Pentecost roedd pawb gyda'i gilydd eto. Ac yn sydyn dyma nhw'n clywed sŵn o'r awyr, fel gwynt cryf yn chwythu drwy'r ystafell lle roedden nhw'n cyfarfod. Ac wedyn roedd fel petai rhywbeth tebyg i fflamau tân yn dod i lawr ac yn gorffwys ar ben pob un ohonyn nhw. Dyma pawb oedd yno yn cael eu llenwi â'r Ysbryd Glân ac yn dechrau siarad mewn ieithoedd eraill. Yr Ysbryd oedd yn eu galluogi nhw i wneud hynny.

Bryd hynny roedd Iddewon crefyddol o wahanol wledydd wedi dod

i aros yn Jerwsalem. Clywon nhw'r sŵn hefyd, ac roedd tyrfa fawr wedi casglu at ei gilydd i weld beth oedd yn digwydd. Roedden nhw wedi drysu, am fod pob un ohonyn nhw yn clywed ei iaith ei hun yn



cael ei siarad. Roedd y peth yn syfrdanol! "Onid o Galilea mae'r bobl yma'n dod?" medden nhw. "Sut maen nhw'n gallu siarad ein hieithoedd ni?" (Roedd Parthiaid yno, a Mediaid, Elamitiaid, pobl o Mesopotamia, Jwdea a Capadocia, Pontus ac Asia, Phrygia, Pamffilia, yr Aifft, a'r rhan o Libia sydd wrth ymyl Cyrene; pobl oedd ar ymweliad o Rufain – rhai yn Iddewon ac eraill yn bobl oedd wedi troi at y grefydd Iddewig – a hefyd Cretiaid ac Arabiaid). Maen nhw'n siarad ein hieithoedd ni, ac yn dweud am y pethau rhyfeddol mae Duw wedi'u gwneud!" Dyna lle roedden nhw'n sefyll yn syn, heb ddim clem beth oedd yn digwydd. "Beth sy'n mynd ymlaen?" medden nhw.

Actau 2:1-12 Beibl.net

Fersiwn syml

Roedd yn Wyl y Pentecost ac roedd y disgyblion gyda'i gilydd. Yn sydyn dyma nhw'n clywed sŵn fel gwynt yn chwythu trwy'r ystafell. Wrth i'r gwynt chwythu ymddangosodd fflamau bach o dân ar ben pob un o'r disgyblion. Llanwyd pawb ohonynt gyda'r Ysbryd Glân. Dechreuodd pob un ohonynt siarad mewn ieithoedd gwahanol ar draws ei gilydd. Roedd yna lawer o ymwelwyr o bell ac agos yn Jerwsalem hefyd y diwrnod hwnnw. Roedden nhw'n clywed y disgyblion yn siarad. "Beth sydd yn digwydd? Mae rhywun yn siarad am y pethau gwych mae Duw wedi eu gwneud yn fy iaith i," ebychodd un ohonynt. "A finnau," meddai un arall mewn syndod. Doedden nhw ddim yn deall beth oedd yn digwydd.



Cwestiynau i'w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Pryd oedd y tro diwethaf fuest ti allan mewn gwynt cryf? Sut deimlad oedd o? Beth welaist ti?
2. Beth welodd y disgyblion pan ddaeth y gwynt i'r ystafell?
3. Sut oedd y disgyblion yn wahanol ar ôl i'r Ysbryd Glân ddod arnyn nhw?
4. Beth wyt ti'n ei feddwl oedd y disgyblion yn ei ddweud am y pethau rhyfeddol oedd Duw wedi eu gwneud?




Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti am y pethau rhyfeddol rwyf Ti wedi eu gwneud.
Diolch i Ti am anfon yr Ysbryd Glân er mwyn i ni ddeall mwy amdanat Ti, a dy adnabod Di'n well. Amen.

Yr Ysbryd Glân yn dod


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Cyn i lesu fynd i fyny i'r nefoedd fe ddywedodd wrth ei ddisgyblion am aros yn Jerwsalem hyd nes y byddent yn derbyn pŵer gan Dduw.



Wedi i lesu fynd i fyny i'r nefoedd fe wnaeth rhai o'i ffrindiau gyfarfod â'i gilydd i fyny'r grisiau mewn tŷ yn Jerwsalem ac fe wnaethon nhw aros, yn union fel yr oedd lesu wedi dweud wrthynt am ei wneud.



Yn sydyn fe glywson nhw wynt cryf yn chwythu ac yn ysgwyd y tŷ ble roedden nhw'n aros. Roedd Duw wedi anfon ei Ysbryd Glân.



Llanwodd nerth yr Ysbryd Glân pob un o'r disgyblion. Fe welson nhw rywbeth oedd yn debyg i fflamau uwch eu pennau ac roedden nhw'n teimlo fel pe bai Duw yno gyda nhw yn y fan a'r lle.



Roedd y fflamau'n llachar ac yn dawnsio yn yr awyr ond doedden nhw ddim yn llosgi'r disgyblion. Roedd eu calonnau'n llawn o gariad Duw a dyna nhw'n ei ganmol.



Nawr fe allai ffrindiau lesu siarad mewn ieithoedd doedden nhw ddim wedi eu dysgu! Gwnaeth yr Ysbryd Glân nhw'n ddewr hefyd! Roedden nhw eisiau i bawb gael gwybod am lesu!



Fe aeth y disgyblion allan at y bobl oedd yno o wledydd eraill ac fe siaradon nhw, yn iaith y bobl rheini, gan ddweud wrthynt fod lesu wedi dod yn ôl o farw'n fyw ac roedd pawb yn y dyrfa yn eu deall nhw.



Pan ddaeth yr Ysbryd Glân i'w bywydau roedd yn gychwyn rhywbeth newydd sbon. Daeth llawer iawn i gredu yn lesu a dod i'w ddilyn oherwydd y diwrnod rhyfeddol hwn.

Gweddi Greadigol

Baneri'r byd

Byddi angen:

1. Gallu mynd ar y we neu llyfrau gwybodaeth am wledydd y byd ee atlas
2. Papur
3. Pinnau ffelt

Beth i'w wneud:


- Chwilia ar y we am faneri'r byd:
<https://www.countries-of-the-world.com/flags-of-the-world.html>
- Dewisa un o'r baneri rwyf ti'n ei hoffi.
- Beth fedri di ei ddarganfod am y wlad?
- Tynna lun o'r faner.
- Ar gefn y faner ysgrifenna neu tynna lun gweddi dros blant y wlad.



Barcud

Defnyddia'r templed isod i wneud barcud.


Hedfana dy farcud yn y gwynt. Wrth i ti ei hedfan meddylia am sut mae'n gwneud i dy farcud symud. Gweddïa am i awel yr Ysbryd Glân symud ynot ti. Meddylia am y pethau rwyf ti angen help i'w newid yn dy gymeriad a gofynna i'r Ysbryd Glân ddod i wneud y newidiadau hynny ynot ti.



Posau

Pos yr adnod

Cyfra'r fflamau sydd yn siâp pob llythyren.
Defnyddia'r llythrennau i ddatrys y cod a darllena'r adnod.



"M $\overline{12}$ n nh $\overline{6}$ 'n d $\overline{625}$ d $\overline{1}$ m $\overline{7}$
p $\overline{2}$ th $\overline{15}$ rh $\overline{7}$ f $\overline{2}$ dd $\overline{4}$ l m $\overline{12}$ D $\overline{56}$
 $\overline{62}$ d $\overline{35}$ g $\overline{6}$ n $\overline{25}$ d!"

Actau pennod 2 adnod 11

Fflamau


Lliwia'r llun gyda'r lliwiau:

1 = melyn

2 = oren

3 = coch



Addawodd  anfon yr Ysbryd Glân i'w . Ar ôl i
 fynd yn ôl i'r nefoedd, cyfarfu   gyda'i
gilydd i aros. Roedd gwynt cryf ac yna  ar bennau'r
holl . Roeddent yn gallu  mewn gwahanol
ieithoedd a dweud wrth bawb am .

 Iesu

 siarad

 fflamau

 disgyblion



Fideo o'r stori

<https://www.youtube.com/watch?v=fxTOcW62tBw>




Cartŵn (Saesneg)

<https://www.youtube.com/watch?v=OMQKy1Mx49M&t=105s>


Fideo o gân yr wythnos

<https://youtu.be/6XNJPAP8MIQ>

Dolenni



Rho dy Ysbryd
syn rhoi nerth;




Crefft

FFLAMAU'R PENTECOST




Byddi angen:

Cerdyn A4 coch, oren, melyn a gwyn, gwlan, pren mesur, pensil, siswrn, tyllwr



1. Cerdyn Gwyn
Tynna lun 1 petryal
1 modfedd o led x 7 modfedd o hyd.




2. Torra'r petryal
allan.



3. Cerdyn Melyn
Tynna lun 2 betryal
1 modfedd o led x 8 modfedd o hyd.



4. Torra'r 2 betryal allan.



5. Cerdyn Oren
Tynna lun 2 betryal
1 modfedd o led x 9½ modfedd o Hyd.




6. Torra'r 2 betryal allan.



7. Cerdyn Coch
Tynna lun 2 betryal
1 modfedd o led x 11 modfedd o hyd.



8. Torra'r 2 betryal allan.



9. Wedi i ti orffen bydd gennyf 7 petryal.



10. Defnyddia'r tyllwr i wneud twll ym mhen pob un o'r Stribedi.



11. Gwna'r un peth ym mhen arall y petryalau.



12. Gosoda'r stribedi petryal yn y drefn gywir – coch, oren, melyn, gwyn, melyn, oren, coch.



13. Torra 2 ddarn o wlan.



14. Gwthia'r gwlan drwy'r 7 twll yn un pen i'r stribedi petryal a'i glymu'n dynn.



15. Gwthia'r gwlan drwy'r 7 twll ar y pen arall i'r stribedi petryal a'i glymu'n dynn..



Gelli di wneud rhagor o fflamau a'u clymu ynghyd i wneud symudyn sy'n troelli yn y gwynt. I wneud fflamau llai...

Gwyn-1 modfedd x 4 modfedd
Melyn -1 modfedd x 4½ modfedd
Oren-1 modfedd x 5 modfedd
Coch-1 modfedd x 5½ modfedd

FFLSBITHORNWAE

Chwilair

RNCVFLSPBTT

A	D	S	Ŵ	N	P	U	A	M	A	L	FF
D	E	U	E	DD	E	O	TH	I	E	I	I
G	W	A	H	A	N	O	L	Â	DD	B	W
W	Y	E	I	W	T	I	O	G	C	W	N
L	L	S	U	P	E	N	DD	L	N	A	E
E	C	D	Ŵ	D	C	T	E	Â	T	P	LL
D	I	A	R	A	O	R	F	N	I	E	E
Y	D	Y	R	B	S	Y	Y	DD	A	TH	F
DD	W	S	N	Â	T	W	RH	F	I	A	A
A	F	R	Y	T	G	CH	W	Y	TH	U	T
R	G	U	S	Y	R	D	A	R	A	I	S
J	E	R	W	S	A	L	E	M	L	W	Y


CERNWABOCEAHRNPNWGTDSLFWABOH

AWYR CHWYTHU CLYWED CRYF DRYSU DUW DWEUD FFLAMAU GLÂN GWAHANOL GWLEDYDD GWYNT IAITH IEITHOEDD	JERWSALEM LLENWI PAWB PEN PENTECOST PETHAU RHYFEDDOL SIARAD SŴN TÂN TYRFA YSBRYD YSTAFELL
--	---

Sialensau

Dant y llew

Pa mor gyflym fedri di chwythu'r hadau oddi ar ben dant y llew? Rasia'n erbyn eraill yn dy deulu.



Llun: Jen Theodore ar Unsplash

Angen gwynt

Tynna luniau o 5 peth sydd angen gwynt i wneud iddyn nhw weithio. Dyma un syniad...



Beth ddigwyddodd nesaf?
Fedri di ddarllen rhan nesaf y stori hon:
<http://www.beibl.net/beibl-chwilio?pennod=2&book=BNET%3AActs&viewid=BNET%3AActs.2&newwindow=BOOKREADER&math=>

Fedri di ddysgu loan 3 adnod 16 mewn ieithoedd gwahanol?

Cymraeg: Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.



Sbaeneg: Porque de tal manera amó Dios al mundo, que dió a su Hijo unigénito, para que todo aquel que cree en él, no perezca, mas tenga vida eterna.



Pwyleg: Tak bowiem Bóg umiłował świat, że Syna swego Jednorodzonego dał, aby każdy, kto w Niego wierzy, nie zginął, ale miał życie wieczne.



Ffrangeg: Car Dieu a tant aimé le monde qu'il a donné son Fils unique, afin que quiconque croit en lui ne périsse point, mais qu'il ait la vie éternelle.



Rasio ceir

Ar gyfer bob chwaraewr bydd angen:

- Car tegan
- Gwelltyn
- Balŵn
- Tâp selo

Beth i'w wneud:

- Gosoda linell gychwyn.
- Mae pob chwaraewr yn rhoi'r gwelltyn yn sownd ar ben ei gar gan ddefnyddio'r tâp selo.
- Mae angen rhoi'r falŵn yn sownd yn y gwelltyn a chau ceg y falŵn yn dynn o gwmpas y gwelltyn gan ddefnyddio'r tâp selo.



I chwarae:

- Mae pob chwaraewr yn chwythu ei falŵn trwy'r gwelltyn ac yn dal ceg y falŵn ar gau.
- Mae'n gosod ei gar wrth y llinell gychwyn, yna'n gollwng y falŵn.
- Y car sy'n teithio bellaf sy'n ennill.

Ras Gyfnewid - Fflapio'r Fflamau

Beth fyddi di ei angen: Papur A4, pinnau ffelt (oren, melyn, coch), siswrn, papur newydd neu gylchgrawn

Cyfarwyddyd:

- Tynna lun 6 fflam ar y papur A4. Lliwia nhw ac yna eu torri allan.
- Papur newydd neu gylchgrawn

Sut i chwarae:

- Yn un pen i'r ystafell rho'r fflamau mewn pentwr ar lawr pren neu 'lino.'
- Fflapia'r papur newydd/cylchgrawn tu ôl i'r fflamau i greu gwynt.
- Fflapia'r fflamau i ben arall yr ystafell mor gyflym ag y gelli di. Amsera dy hun yn gwneud hyn neu beth am i ti rasio'n erbyn rhywun arall.



Canu



O Dduw, dwi'n methu bod fel Ti –
Ti sy'n berffaith – nid fel fi.
Dwi angen help i dy blesio Di:
Rho dy Ysbryd i ddangos y ffordd,
Rho dy Ysbryd i ngwneud fi fel Iesu,
Rho dy Ysbryd, sy'n rhoi nerth;
Ysbryd Glân, tyrd, llenwa fi.

Hawlfraint 2021 Andy Hughes



Gwylwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar <https://youtu.be/6XNJPAP8MIQ>

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes: ahughes@saintygyuned.org